

INVOLVE

Cylchlythyr BAVO ar gyfer y trydydd sector ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

GAEAF 2021



BAVO

Bridgend Association of Voluntary Organisations
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr



www.bavo.org.uk

Croeso i'n cylchlythyr GAEAF 2021

Blwyddyn Newydd Dda, a gadewch i ni obeithio y bydd yn un well!

Rydyn ni'n dal i glywed am y 'normal newydd', ond nid wyf yn siŵr beth yw hynny na p'un a ydym wedi cyrraedd yno eto. Mae ein tîm BAVO wedi bod yn gweithio gartref yn bennaf, fel llawer o staff y sector gwirfoddol, ers bron i flwyddyn bellach. Rydym wedi dibynnu ar gyfrifiaduron i weld ein gilydd, cyfathrebu a chyflawni ein rolau. Gobeithiwn nad dyma'r normal newydd gan nad yw'n gweddu i ni o gwbl. Yr ydym am fod allan mewn cymunedau, yn cwrdd ag aelodau, yn cynnal digwyddiadau a chael rhyngweithio wyneb yn wyneb fel yr oedden ni'n arfer ei wneud.

Ar lefel unigol, mae llawer ohonom yn ei chael hi'n anodd ymdopi gyda theimladau o unigedd a gwyddom fod hwn yn fater enfawr i ganran uchel o'r boblogaeth. Dyna pam yr ydym yn dal i chwilio am gyfeillion ffôn gwirfoddol a galwyr lles i gysylltu â'r rhai sy'n agored i niwed ac sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi ar eu pennau'u hunain.

Rydyn ni'n gwybod y gall mynediad a gallu i ddefnyddio TG newid bywyd ar hyn o bryd, felly rydym wrthi'n ail-lansio 'Cael Pen-y-bont ar Ogwr Ar-lein', rhwydwaith ledled y sir sy'n chwilio am roddion o gyfrifiaduron/tabledi (i'w clirio a'u hadnewyddu) a'u rhoi i ysgolion i gefnogi dysgu plant, grwpiau cymunedol a helpu pobl hŷn i fanteisio ar y gwahanol gyfleoedd ar-lein sydd bellach yn cael eu defnyddio. Rydym yn chwilio am roddion, gwirfoddolwyr technoleg a chymorth corfforaethol i'n helpu i roi hyn ar waith hefyd, felly os gallwch chi helpu neu os oes gennych chi gysylltiadau, rhowch ganiad i Tracy ar 01656 810400.

Rydym hefyd yn helpu i ddatblygu 'Rhwydwaith Bwyd Sirol Pen-y-bont ar Ogwr'. Rydym ar y camau cynnar o ddod ag ystod eang o sefydliadau sy'n defnyddio Fairshare a/neu'n darparu cymorth i fynd i'r afael â thlodi bwyd fel pantris cymunedol, ceginau cymunedol a phrydau bwyd a Banciau Bwyd. Os ydych chi'n sefydliad sydd â diddordeb mewn cefnogi digonolrwydd bwyd yn eich cymuned, cysylltwch â ni a byddwn yn eich gwahodd i'r sesiwn gyntaf pan fydd yn cael ei threfnu.

Darn mawr arall o waith i ni fu cyflwyno'r brechlyn Covid-19. Bydd yn ein harwain at y 'normal newydd' hwnnw cyn gynted â phosibl a dyna pam yr ydym yn dilyn canllawiau lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru wrth eiriol y neges i gael eich brechu pan fydd eich apwyntiad yn cyrraedd.

Rwyf wedi bod yn falch o weithredu fel Is-gadeirydd grŵp Rhanddeiliaid Brechu CTM. Rydym wedi gweithio gydag lechyd Cyhoeddus Cymru, Ambiwllans Cymru, Ambiwllans Sant Ioan, Bwrdd lechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Heddlu De Cymru, y Lluoedd Arfog a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i geisio cyflwyno'r brechlyn cyn gynted â phosibl i staff rheng flaen ym maes iechyd a gofal cymdeithasol (gan gynnwys y rhai yn y sector gwirfoddol), yn ogystal â sefydlu'r canolfannau brechu torfol ar draws y rhanbarth. Rwyf wedi fy llorio gyda'r rhaglen waith enfawr y tu ôl i'r llenni i roi pethau ar waith, gan gynnwys diogelwch, nodi a hyfforddi unigolion i roi brechlynnau a recriwtio gwirfoddolwyr. Mae Ambiwllans Sant Ioan wedi gwneud gwaith anhygoel wrth gefnogi'r ymdrechion gwirfoddoli ac rydym mor falch o'u gwaith.

O ran ein gwaith o ddydd i ddydd, rydym wedi delio â thros 7,000 o alwadau eisoes ac rydym wedi helpu grwpiau lleol i gael dros £1m o gyllid. Nid yw'r Aelodau bob amser yn ymwybodol bod cyrrf sy'n rhoi grantiau yn aml yn gofyn i ni am wybodaeth a geirdaon lleol i gefnogi gweithgareddau aelodau, yr ydym wedyn yn gweithio'n gyflym i'w darparu. Rydym hefyd eisoes wedi dosbarthu gwerth dros £150,000 o grantiau i gefnogi aelodau i brynu offer, diogelu eu gwasanaethau yn ystod y cyfnod clo, mynd i'r afael â thlodi bwyd a chefnogi plant a phobl ifanc.

Rydym yn gwneud ein gorau glas i ddylanwadu ac eiriol dros ein sector ar bob lefel o lywodraeth leol a chenedlaethol, ond ni allwn wneud hynny ar ein pen ein hunain, rydym ni angen eich cefnogaeth chi hefyd. Anfonwch eich astudiaethau achos a'ch straeon atom. Rhowch y wybodaeth ddiweddaraf i ni, llenwch ein harolwg aelodau a fydd yn dod atoch yn fuan ac os hoffech gael eich arddangos yn un o'n ffilmiau neu gyhoeddiadau yn y dyfodol, rhowch alwad i Jane.

Os ydych chi, neu unrhyw un rydych chi'n ei adnabod angen cymorth ar unrhyw adeg, cofiwch y gallwn eich cyfeirio i'r cyfeiriad cywir – dydych chi ddim ar eich pen eich hun yn hyn!

Tan y tro nesaf, cofiwch ledaenu caredigrwydd a chadw'n ddiogel!

Heidi Bennett, Prif Weithredwr



Beth wnaethon ni ei gyflawni yn 2019/20?



Ymatebwyd i
2,862
o ymholiadau



£306,288 Dyfarnwyd £306,288 drwy gynlluniau grantiau a reolir gan BAVO

£444,000 Derbyniodd grwpiau £444,000 yn dilyn cyngor ariannu BAVO



Darparwyd
9,642
o oriau gwirfoddoli Cymdeithion Cymunedol ar draws y prosiect



60 Cefnogwyd 60 o wirfoddolwyr Cymdeithion Cymunedol yn eu rôl cyfeillio

85 Manteisiodd 85 o unigolion ar gymorth cyfeillio



Cafodd
198
o grwpiau gymorth wedi'i deilwra gan BAVO



252 Cafodd 252 o wirfoddolwyr leoliadau a rhoddwyd cymorth i **48** o sefydliadau gyda materion yn ymwneud ag arfer da mewn gwirfoddoli

85 Derbyniodd 85 o ymddiriedolwyr ganllawiau mewn llywodraethu da, datblygu polisi, ariannu, gweithio mewn partneriaeth a thendro

Meddai prif weithredwr BAVO, Heidi Bennett: "Ein nod yn y pen draw yw cryfhau grwpiau gwirfoddol a chymunedol a'u helpu i ffynnu. Rydym yn gweithio'n galed i recriwtio a lleoli gwirfoddolwyr gyda grwpiau lleol fel y gallant barhau i gyflawni eu gwaith a'u gweithgareddau rhagorol mewn cymunedau.

"Rydym hefyd yn cynnig cymorth un-i-un i grwpiau cymunedol ac elusennau pan fydd angen help arnynt, ond dim ond am fod gennym nifer o bartneriaid a chyllidwyr sy'n buddsoddi ynom i wneud hynny y gallwn ei wneud. Rydym yn hynod ddiolchgar i Lywodraeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg sy'n darparu rhywfaint o gyllid craidd i ni."

Fel y sefydliad ymbarél a sefydlwyd i ddatblygu a hyrwyddo gweithredu gwirfoddol a chymunedol ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, rydym wedi parhau'n ymrwymedig i ddarparu ystod eang o wasanaethau cymorth o ansawdd uchel i fudiadau gwirfoddol a chymunedol lleol.

Ychwanegodd Steve Curry, Cadeirydd BAVO: "Hoffem ddiolch i'r tîm cyfan yn BAVO, ein cyllidwyr a holl sefydliadau'r trydydd sector ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n gwneud bywyd yn well i bob un ohonom."

Gellir dod o hyd i fanylion llawn ein holl gyflawniadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf drwy ddarllen ein Hadroddiad Effaith Blynnyddol diweddaraf 2019-20 www.bavo.org.uk/about-us/impact-reports

"Hoffem ddiolch i'r tîm cyfan yn BAVO, ein cyllidwyr a holl sefydliadau'r trydydd sector ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n gwneud bywyd yn well i bob un ohonom."

Cylchlythyr GAEAF 2021

Offeryn newydd rhad ac am ddim i helpu i sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael y profiad gorau posibl

Mae Investing in Volunteers (IiV) Essentials yn offeryn rhad ac am ddim ar-lein sydd wedi'i ddylunio'n arbennig ar gyfer grwpiau a sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr i wneud archwiliad iechyd sylfaenol ar ymarfer gwirfoddolwyr.

Bydd yn eich helpu i feddwl am brofiadau gwirfoddolwyr a sut y gall gwirfoddolwyr helpu i wneud y gwahaniaeth mwyaf i'ch achos.

Am fanylion pellach ewch i www.knowhow.ncvo.org.uk/tools-resources/investing-in-volunteers-iiv-essentials



Cipolwg ar rai o'n cyfleoedd gwirfoddoli

Mae ein Tîm Gwirfoddoli yn cynnig adnodd un stop ar bob agwedd ar wirfoddoli gyda mudiadau gwirfoddol cofrestredig lleol, sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd i gyd-fynd â sgiliau a diddordebau pobl.

STEER yn chwilio am wirfoddolwyr i ofalu am anifeiliaid a choetiroedd

Wedi'i leoli mewn 37 erw, mae STEER wedi'i leoli ar gyrion Cwm Llynfi. Mae angen gwirfoddolwyr sydd â'r amser rhydd a phrofiad mewn cadw gwenyn, merlod, garddio, waliau cerrig sych a choetiroedd.

Dewch yn gyfaill ffôn Cymdeithion Cymunedol gwirfoddol... mae'n dda siarad!

Mae bod yn gyfaill ffôn yn eich helpu chi a'r person rydych chi'n ei ffonio, gan y gall sgwrs wythnosol eich helpu chi i ailgysylltu â'r byd!

Mae angen gwirfoddolwyr ar siop elusen Theo's ym Mynydd Cynffig pan ganiateir iddi ailagor

Mae Theo's wedi profi prinder gwirfoddolwyr wrth i rai benderfynu eu gadael oherwydd oedran, cyflyrau iechyd neu am eu bod yn gwarchod eu hunain, felly byddent wrth eu bodd yn clywed gennych chi!

Mae gan Leonard Cheshire Cymru amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli yn eich ardal chi (ar-lein ar hyn o bryd)

Mae angen gwirfoddolwyr i rannu eu sgiliau, cynnig hyfforddiant, mentora neu gefnogi'r timau gyda marchnata, codi arian, dyrchafiad neu ddigwyddiadau.

Gallwch ddod o hyd i'r holl gyfleoedd gwirfoddoli diweddaraf drwy ymweld â Bridgend.volunteering-wales.net

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â BAVO, T. 01656 810400, E: volunteering@bavo.org.uk ewch i'n tudalennau gwirfoddoli yn www.bavo.org.uk neu darllenwch ein newyddion gwirfoddoli diweddaraf yn www.bavo.org.uk/news-events/latest-news

Cylchlythyr GAEAF 2021

Diogelwch a chydymffurfiaeth ar gyfer gwirfoddoli

Fel y gwyddom i gyd, mae gwirfoddolwyr ledled y wlad wedi helpu i wasanaethu eu cymunedau lleol drwy'r cyfnod clo diweddar ac mae hyn wedi bod yn rhan hanfodol o'r ymateb cenedlaethol i'r pandemig.


Ydych chi'n ymwybodol o'ch atebolrwydd fel aelod o bwyllgor/ymddiriedolwr Gr p Ymateb Covid-19 i ddiogelu eich gwirfoddolwyr, staff a buddiolwyr?

Ydych chi'n cydymffurfio â'r gyfraith ynghylch diogelu data a manylion cyswllt buddiolwyr (yn enwedig y rhai a allai fod yn agored i niwed) a gwirfoddolwyr?

Ydych chi'n amddiffyn eich gwirfoddolwyr, buddiolwyr a staff rhag dal neu ledaenu Covid-19? Ydy eich yswiriant cyfredol yn cwmpasu eich gwaith cyfredol? A ddylai eich gwirfoddolwyr gael gwiriadau DBS?

Wrth i ni i gyd barhau i weithio i ddiwallu anghenion y gymuned yn y cyfnod heriol hwn, mae'n hanfodol bwysig ein bod yn sicrhau ein bod ni i gyd yn gweithio o fewn y canllawiau a'r ddeddfwriaeth bresennol.

I gael rhagor o arweiniad, ewch i www.bavo.org.uk/volunteering/finding-volunteers neu cysylltwch â'n Swyddogion Datblygu yn BAVO.



Pat a Jill yw'r gwirfoddolwyr cyntaf i gynnal sesiynau ar gyfer Superagers Pen-y-bont ar Ogwr!

Mae gan yr efeilliaid Pat a Jill hanes hir o fwynhau chwaraeon a gweithgarwch corfforol, felly fe wnaethant neidio ar y cyfle i fod yn rhan o raglen gweithgarwch corfforol Superagers Pen-y-bont ar Ogwr, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer oedolion 50+ mlwydd oed.

Pan gafodd y cyfyngiadau symud eu llacio yr haf diwethaf, roedd y chwiorydd yn mwynhau mynd allan o'u cartrefi i gymryd rhan mewn sesiynau awyr agored wythnosol Tai Chi ac loga ym Mharc Lles Maesteg. Eglurodd Pat: "Roedd y sesiynau'n cael eu harwain yn dda ac roeddwn i'n teimlo fy mod yn cael cefnogaeth dda gan yr hyfforddwyr, anogwyd cyfeillgarwch gyda'r cyfranogwyr eraill ac roedd yn hwyl cwrdd â phobl newydd!"

Sefydlwyd sesiwn gerdded newydd ym Maesteg yn hydref 2020, gyda Pat a Jill wrth y llyw. Gan ddefnyddio'r llwybrau cerdded niferus, dywedodd Jill: "Roedd yn werth chweil gweld eraill yn elwa o'r gr p cerdded ac i'w gweld yn mwynhau eu hunain a'r awyr iach." Ychwanegodd Pat: "Rwy'n mwynhau gallu annog a chymell eraill i gymryd rhan hyderus mewn bod yn actif, gwella eu hiechyd corfforol a meddyliol."

Dros 50 mlwydd oed ac eisiau cadw'n actif? Hoffech chi wirfoddoli rhywfaint o'ch amser i gynnal rhai sesiynau? Ymunwch â Superagers Pen-y-bont ar Ogwr! I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â BAVO, Ff: 07923 212 737 neu E: bavo@bavo.org.uk



Cylchlythyr GAEAF 2021

Peidiwch â methu Ffair Ariannu ar-lein BAVO ym mis Chwefror 2021!



Rydyn ni am i'n haelodau ddod i ddigwyddiadau i rannu profiadau a chysylltu â chodwyr arian eraill yn Nhrydydd Sector Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – yn anffodus, bydd yn rhaid i chi ddarparu eich te a'ch cacen eich hun!

Yn y cyfnod heriol hwn, mae angen mawr i sefydliadau ddod at ei gilydd a rhannu gwybodaeth a phrofiad, yn enwedig o ran codi arian er mwyn cynnal y gwasanaethau gwerthfawr y mae'r trydydd sector yn eu darparu i'n cymunedau.

Mae llawer o fudiadau gwirfoddol lleol yn ymateb i'r achosion presennol o Covid-19 sy'n newid yn gyson. Rydym am gynnig cymorth drwy ddod â phobl at ei gilydd (yn rhithiol) drwy ddigwyddiadau rhwydweithio, trafod cyllid a materion perthnasol eraill, yn ogystal â darparu cyfleoedd i glywed gan gyllidwyr.

Cewch gyfle i gymryd rhan mewn trafodaethau am sut mae'r byd ariannu yn newid mewn ymateb i'r argyfwng Covid-19 presennol a pha gyfleoedd a heriau mae hyn yn eu cyflwyno i chi fel ymgeiswyr ariannu.

Bydd cyfle hefyd i ddweud wrthym beth rydych chi ei angen a sut y gallwn barhau i'ch cefnogi.

Cofrestrwch ar gyfer ein sesiynau briffio a holi ac ateb sy'n cynnwys Cronfa Liniaru Covid-19 Sefydliad Moondance, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Localgiving a Sefydliad Waterloo.

Trefnwch apwyntiad 20 munud gyda Phlant mewn Angen y BBC i drafod cymhwysedd cyllid eich prosiect arfaethedig a mwynhau gweithdai astudiaethau achos a Phrif Awgrymiadau ar gyfer ceisiadau llwyddiannus am gyllid sy'n cael eu cynnal gan ein Swyddogion Datblygu BAVO.

I gael rhagor o wybodaeth am ddyddiadau ac amseroedd ein holl ddigwyddiadau drwy gydol mis Chwefror, ewch i

www.bavo.org.uk/dont-miss-bavos-online-funding-fayre-2021-throughout-february

Am fanylion pellach, ffoniwch Angela Davies yn BAVO, Ff: 07710 067718 neu E: angeladavies@bavo.org.uk

Cylchlythyr GAEAF 2021



Eglwys Sant Tyfodwg yn derbyn £100,000 o arian gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Roedd pentref bach gwledig Glynogwr wedi colli eu hysgol gynradd, eu tafarn a'u siop flynyddoedd lawer yn ôl ac nid oedd unman i'r gymuned gyfarfod am weithgareddau a gwasanaethau allgymorth. Bydd y cyllid hwn y mae mawr ei angen yn cael ei ddefnyddio i osod toiled, cegin a chyfleuster cymunedol i'r anabl yn yr eglwys.

Dywedodd Gill Morgan, aelod o bwyllgor yr eglwys: "Cafwyd trafodaeth gyda nifer o aelodau'r eglwys i weld a ellid dod o hyd i ffynhonnell ariannu i ymgymryd â'r gosodiadau angenrheidiol a oedd eu hangen i ddarparu cyfleuster y mae mawr ei angen ar gyfer y gymuned.

"Gan fod yr eglwys yn Adeilad Rhestredig II, byddai'r costau'n uchel iawn gan fod yn rhaid i unrhyw newidiadau gydymffurfio ag oedran yr adeilad. Fe wnaethom gydlynu â'r gymuned hefyd o ran beth oedd eu barn am y syniad a chael eu cefnogaeth i'r prosiect. Roedd yn bwysig iawn cynnwys y gymuned i sylweddoli beth oedd eu hanghenion."

"Rhaid diolch i BAVO a Reach am y cymorth mawr ei angen a ddarparwyd ganddynt"

Yn ystod tymor yr hydref 2019, cynhaliodd BAVO amrywiol gymorthfeydd ariannu a oedd yn cynnig cyfle i Gill gwrdd â chyllidwyr i drafod eu prosiect a darganfod a fyddent yn gymwys i gael cyllid. Fe wnaeth gyfarfod hefyd â'n Swyddog Datblygu BAVO yn y cymorthfeydd ac mae wedi parhau i elwa o'n cefnogaeth gyda cheisiadau am gyllid.

Darparwyd cymorth hefyd gan REACH Rhaglen Datblygu Gwledig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a alluogodd i brosiect St Tyfodwg gael ei gynnwys mewn Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy i gynorthwyo gydag unrhyw broblemau a allai ddod ar eu traws.

Fe wnaeth presenoldeb yr eglwys yn ein cymhortha ariannu ym mis Medi 2019 gyda Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, arwain at anfon cais a oedd yn llwyddiannus eleni!

Ychwanegodd Gill Morgan: "Rhaid diolch i BAVO a Reach am y cymorth mawr ei angen a ddarparwyd ganddynt. Gallwn nawr fynd ymlaen yn fwy hyderus y bydd y nod o gael cyfleuster cymunedol yn y pentref bach gwledig yn cael ei gyflawni un diwrnod."

Cylchlythyr GAEAF 2021

Dyfarnwyd ychydig o dan £86,000 drwy gynlluniau grant a reolir gan BAVO yn ddiweddar!

Rydym wedi parhau i weithio'n galed i drafod cyfleoedd ariannu a dod â nhw i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Ers mis Awst 2020, dyfarnwyd ychydig o dan £86,000 i 26 o sefydliadau lleol drwy'r cynlluniau grantiau sy'n cael eu gweinydd gan BAVO canlynol:

- Cynllun Grantiau Bach Tlodi Bwyd;
- Cronfa Gofal Integredig (ICF): Grant Refeniw Plant a Phobl Ifanc;
- Grantiau Lleol Comic Relief;
- Grantiau dan Arweiniad Pobl Ifanc.

Peidiwch byth â gadael i gyfle ariannu lithro heibio am nad ydych yn hyderus yn eich sgiliau a chysylltwch â'n Swyddogion Datblygu yn BAVO. Ein nod yw sicrhau nad yw sefydliadau ar eu colled o ran cyrchu cyllid priodol gan y llywodraeth a'u bod yn ymwybodol o grantiau lleol.

Oeddech chi'n gwybod yn 2019/20, dyfarnwyd dros £306,000 i sefydliadau lleol drwy gynlluniau grant a reolir gan BAVO ac fe wnaethant dderbyn £444,000 yn dilyn cymorth ariannol BAVO?

Gwyddom fod y rhan fwyaf o grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn dibynnu'n fawr ar gyllid grant er mwyn cadw eu gwasanaethau ar waith neu ddatblygu prosiectau newydd. Gall gwneud cais am gyllid fod yn gymhleth, yn ddryslyd ac yn anodd ei ddeall ond gallwn ni eich helpu!

Rydym yn rhannu ein mewnwelediad, ein gwybodaeth a'n profiad fel awduron ceisiadau, aseswyr grantiau ac aelodau panel fel eich bod chi'n cael y cyfle gorau i lwyddo. Ffoniwch ni yn BAVO a pheidiwch â cholli allan ar gyllid eto!



Cylchlythyr GAEAF 2021

Investing in the Future for Caerau

Mae Buddsoddi Lleol Caerau (ILC) yn rhan o raglen sy'n rhoi cyllid a chefnogaeth i'r cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru.

Mae un o'r uchafbwyntiau wedi gweld creu swyddi a'r hadau ar gyfer cynaliadwyedd tymor hwy, gan geisio goroesi drwy gyfnodau anodd.

Mae Luke Sinnott yn 19 oed ac yn byw yng Nghwm Llynfi. Ymunodd ag Ymddiriedolaeth Datblygu Caerau fel gwirfoddolwr dair blynedd yn ôl, gan ddewis y prosiect cymunedol hwn fel ei leoliad cynnal ar gyfer ei gwrs Sgiliau Cyflogadwyedd Itec (Twf Swyddi Cymru).

Cafodd Luke gefnogaeth dda a dysgodd sgiliau gwerthfawr mewn Gweinyddu Busnes. Meddai Luke: "Dysgais lawer o sgiliau newydd ac roeddwn wrth fy modd yn cwrdd â'r holl bobl yno."


Fodd bynnag, roedd Luke yn meddwl am ei ddyfodol a bu'n rhaid iddo weithio'n rhan-amser mewn siop leol i sicrhau bod ganddo ddigon o arian: "Roeddwn i'n poeni y byddai'n rhaid i mi adael Ymddiriedolaeth Datblygu Caerau ar ddiwedd fy rhaglen hyfforddi."

Gyda chymorth Gweithiwr Cymorth Ariannu Caerau Lleol BAVO, dysgodd Luke sut i ddatblygu ei sgiliau ysgrifennu ceisiadau, a gwnaeth gais llwyddiannus i'r Gronfa Loteri Gymunedol Genedlaethol y llynedd, gan helpu i greu dwy swydd gyflogedig ar gyfer y ganolfan mewn gweinyddu ac ar gyfer eu caffi cymunedol/gwasanaeth bwyd siop.

Mae Luke bellach yn cael ei gyflogi'n llawn amser gan Ymddiriedolaeth Datblygu Caerau oherwydd y cyllid hwn ac mae'n mwynhau ei fywyd. Dywedodd: "Mae'r swydd hon wedi rhoi sicrwydd ariannol i mi, yn gweithio mewn lle rwy'n ei garu. Pe gallwn, byddwn yn gobeithio aros yma i'w helpu i ddatblygu i'r dyfodol."

Pan ofynnwyd iddo beth oedd y peth gorau am Ymddiriedolaeth Datblygu Caerau, dywedodd Luke: "Maen nhw'n gwneud y cinio gorau!"

Os oes angen cymorth neu gyngor ariannol arnoch i ddatblygu eich grŵp, eich prosiect neu'ch syniad yng Nghaerau, cysylltwch ag Alex Bowen, 07719 523842 neu E: alexbowen@bavo.org.uk



"Mae'r swydd hon wedi rhoi sicrwydd ariannol i mi, yn gweithio mewn lle rwy'n ei garu. Pe gallwn, byddwn yn gobeithio aros yma i'w helpu i ddatblygu i'r dyfodol."



Cylchlythyr GAEAF 2021



Cyllid yn helpu Splice i addasu i anghenion newidiol oherwydd pandemig

Mae Splice Child and Family Project Ltd yn elusen fach sydd wedi'i lleoli yn y Pîl, sydd o dan amgylchiadau arferol yn cynnig gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y teulu yn cefnogi rhieni a gofaliwyr i chwarae a dysgu gyda'u plant, gan helpu i ddatblygu eu hyder a'u hunan-barch. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig Covid-19 presennol, mae angen iddynt addasu eu gwasanaethau i ehangu eu Gwasanaeth Banc Babanod.

Dywedodd Tracey Morgan, Trefnydd Plant a Theulu yn Splice: "Fe wnaethom ddechrau ein Banc Babanod ddwy flynedd yn ôl. Dechreuodd yn bennaf drwy sgwrs gyda'n banc bwyd lleol a ofynnodd a allem ddefnyddio rhai eitemau babanod dros ben a oedd ganddynt ac yn meddwl tybed a allai ein teuluoedd eu defnyddio.

"Ym mis Mawrth 2020 pan gyhoeddwyd y byddem yn dechrau ar gyfnod clod, nid oedd hyn yn atal yr angen am ein gwasanaeth ac mewn gwirionedd cawsom ymchwydd yn y galw. Yna gwelsom fod yn rhaid i rai o'n teuluoedd rheolaidd hunan-ynysu felly fe wnaethon ni ddechrau danfon i dai.

"Lledaenodd y gair yn fuan a fe wnaethon ni ddechrau cael ceisiadau ac atgyfeiriadau o bob rhan o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Dyma pryd y gwnaethon ni benderfynu rhoi ein gwasanaeth ar y ffordd a daeth ein gwasanaeth yn symudol."

Llwyddodd Splice i sicrhau dros £12,600 o gyllid o wahanol ffynonellau gan gynnwys cronfeydd a weinyddir gan BAVO, a wnaeth eu helpu i brynu hanfodion babanod y mae mawr eu hangen megis cewynnau, cadachau, fformiwla a bwyd.

Ychwanegodd Elaine Davis, Rheolwr Splice: "Mae'r arian a gawsom gan BAVO wedi ein helpu i brynu eitemau storio i ddod yn fwy trefnus a chaniatáu i ni brynu llaeth ac eitemau bwyd


"Rydym yn falch bod ein banc babanod, hyd at fis Rhagfyr 2020, wedi cefnogi dros 120 o deuluoedd. Mae angen ein Gwasanaeth Banc Babanod o hyd, mewn gwirionedd rydym yn disgwyl cynnydd yn y galw wrth i fwy o bobl gael eu gwrthio tuag at dlodi oherwydd effeithiau Coronorvirus.

"Os oes unrhyw un yn cael trafferth oherwydd effeithiau Coronorvirus ac angen ychydig o help ychwanegol, cysylltwch â ni ar 01656 503141 neu e-bostiwch: splice_childandfamily@yahoo.co.uk

"Rydym hefyd yn derbyn rhoddion o hanfodion babanod fel cewynnau, llaeth, cadachau ac ati a byddem wrth ein bodd yn clywed gennych."

Cylchlythyr GAEAF 2021

Cipolwg ar y cyllid sydd ar gael...



Cynllun grantiau Gwirfoddoli Cymru yn ailagor

Gweinyddwyd gan CGGC ac fe'i cynlluniwyd i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i nodi cyfleoedd i fwy o bobl wirfoddoli drwy grantiau hyd at £20,000. Eleni, bydd yn canolbwyntio ar ymyriadau 10 mis sy'n mynd i'r afael â rhwystrau i wirfoddoli, gan roi profiad cadarnhaol i'r gwirfoddolwr ac effaith hirhoedlog ar y gymuned. Dyddiad cau: erbyn 12 Ebrill 2021.

www.wcva.cymru/cy/cyllid/cgg

Ironmongers' Company

Yn ariannu prosiectau sy'n rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddifreintiedig gyflawni eu potensial. Y grant cyfartalog sy'n cael ei ddyrannu yw £4,000 a rhaid ei wario o fewn 12 mis i ddyddiad y dyfarniad. Y dyddiad cau nesaf yw 31 Gorffennaf 2021.

www.ironmongers.org/charitable-grants

Ymestyn y dyddiad cau ar gyfer y Gronfa Benthyciadau Gwydnwch ac Adfer

Mae'r dyddiad cau wedi'i ymestyn i 31 Mawrth 2021. Cronfa argyfwng gwerth £25m yw hon ar gyfer mentrau cymdeithasol ac elusennau sy'n gwella bywydau pobl ledled y DU. Mae'r gronfa ar gyfer y rhai sy'n profi tarfu ar eu model busnes arferol o ganlyniad i COVID-19.

www.wcva.cymru/cy/dyddiad-cau-yn-agosau-ar-gyfer-y-gronfa-benthyciadau-gwydnwch-ac-adferiad

Helpu'r Digartref

Mae cyllid ar gael i sefydliadau sydd â'r nod o helpu pobl ddigartref i ddychwelyd i'r gymuned a'u galluogi i aildechrau bywyd normal. Nid ydynt yn gwneud grantiau i unigolion. Maen nhw'n ariannu costau cyfalaf gyda grantiau o hyd at £5,000. Y terfynau amser chwarterol bob blwyddyn yw: 15 Mawrth, 15 Mehefin, 15 Medi, 15 Rhagfyr.

www.help-the-homeless.org.uk

Fel y gwyr yr aelodau, mae BAVO yn dosbarthu diweddariadau ariannu misol, ond peidiwch ag anghofio gwirio ein gwefan yn rheolaidd am gyfleoedd ariannu newydd yn www.bavo.org.uk

Cofiwch hefyd gofrestru YN RHAD AC AM DDIM gyda www.funding.cymru i chwilio eich hun am gyllid!

Cylchlythyr GAEAF 2021

Mae'r Hwb Gwybodaeth yn rhoi mynediad hawdd i ystod o wybodaeth, rhwydweithio a dysgu ar-lein

Mae partneriaid Cymorth Trydydd Sector Cymru wedi lansio cronfa newydd o adnoddau gwybodaeth a dysgu ar-lein ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae'r Ganolfan Wybodaeth yn offeryn hawdd ei ddefnyddio i helpu mudiadau gwirfoddol i ddatblygu sgiliau, dysgu a chael gafael ar wybodaeth o ansawdd uchel am feysydd allweddol megis rhedeg eich sefydliad, gwirfoddoli, ariannu a dylanwadu.

Yn ogystal â detholiad o daflenni gwybodaeth a chyrtsiau ar-lein, mae'r Hwb Gwybodaeth hefyd yn rhoi cyfle i chi rwydweithio â chyfoedion a chael trafodaethau ar bynciau sy'n bwysig i chi. Mae'n gwbl rhad ac am ddim i'w ddefnyddio ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli yn y sector gwirfoddol yng Nghymru, neu i'r rhai sydd am gymryd rhan yn y trydydd sector am y tro cyntaf.

I fanteisio ar yr Hwb Gwybodaeth newydd, cofrestrwch yn www.thirdsectorsupport.wales/cy

Mae CGGC yn cynhyrchu adnodd diogelu i helpu i ddiweddarau polisïau a gweithdrefnau yng ngoleuni Covid-19

Bydd y wybodaeth hawdd ei darllen hon ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector yn helpu i ddiogelu buddiolwyr, gwirfoddolwyr a staff. Fel arfer, rydym yn meddwl am ein buddiolwyr pan fyddwn yn meddwl am ddiogelu, ond nawr yn fwy nag erioed o'r blaen mae angen i ni feddwl am ein gwirfoddolwyr a'n staff hefyd.

Yn bwysicaf oll, gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys enw a manylion cyswllt o leiaf un 'Swyddog Diogelu' neu 'Arweinydd Diogelu' yn y polisi a'r weithdrefn ar gyfer eich grŵp.

Gallwch lawrlwytho rhestr wirio diogelu CGGC yma.

Allwch chi gael eich Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yn ystod Covid-19?

Mae'r cwestiwn ynghylch sut a phryd i gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yn ystod pandemig yn un heriol i ymddiriedolwyr elusennau. Mae hon yn sefyllfa newydd sy'n newid yn gyflym, felly mae diffyg arweiniad ac enghreifftiau ymarferol, ond gallai'r wybodaeth a gyflwynwyd gan CGGC am yr opsiynau ar gyfer elusennau fod o gymorth.

Ewch i www.wcva.cymru/cy/covid-19-allwn-ni-gynnal-cyfarfod-cyffredinol-blynnyddol-ccb-ein-helusen i gael y darlun llawn.



Cylchlythyr GAEAF 2021

Newyddion a gwaddol Lincio Lan

Bydd ein prosiect Lincio Lan a gefnogir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn gweithio tan ddiwedd mis Mawrth 2021 i sicrhau bod elusennau yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn cael y budd mwyaf posibl ohono.

Mae Lincio Lan wedi bod yn llwyddiannus mewn sawl maes. Rydyn ni wedi:

- recriwtio ymddiriedolwyr newydd gydag amrywiaeth o sgiliau a phrofiad gwahanol a'u paru â sefydliadau a oedd yn chwilio am aelodau newydd o'r pwyllgor/bwrdd;
- helpu byrddau ymddiriedolwyr i ddysgu ffyrdd newydd o redeg eu sefydliadau a'u hymddiriedolwyr unigol, er mwyn gwella eu sgiliau mewn cynllunio strategol a gweithredol a rheolaeth ariannol;
- cefnogi ymddiriedolwyr newydd a phresennol drwy eu paru ag ymgynghorydd medrus a phrofiadol (a elwir yn fentor) i'w helpu i gyflawni eu rôl yn fwy effeithiol neu'n fwy hyderus;
- helpu i wella amrywiaeth elusennau yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr drwy ddenu menywod a phobl ifanc i ddod yn ymddiriedolwyr;
- sefydlu a chefnogi rhwydwaith ymddiriedolwyr anffurfiol i rannu pryderon am rwystredigaethau a syniadau;
- gwrandao ar yr hyn a ddywedodd ymddiriedolwyr a mentoriaid Linio Lan wrthym am ffyrdd y gallai BAVO barhau i'w cefnogi ac ymateb i'ch syniadau a'ch awgrymiadau.



Yn ystod y naw mis diwethaf rydym wedi gwneud hyn i gyd yng nghanol y pandemig, gan weithio ar-lein yn unig i'n cadw ni i gyd yn ddiogel!

Mae angen i ni sicrhau, ar ôl Lincio Lan, y gallwn barhau i gefnogi ein haelodau i fod yn gryf, yn ddiogel, yn hyderus ac yn gallu darparu'r cymorth mwyaf posibl i bobl a chymunedau lle bynnag maen nhw ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Os ydych chi'n meddwl y gallai Lincio Lan a'i waddol helpu eich sefydliad, cysylltwch â Suzanne yn BAVO, Ff: 01656 810400 neu E: bavo@bavo.org.uk

Cofiwch, gallwch hefyd gofrestru eich holl swyddi gwag ymddiriedolwyr yn rhad ac am ddim drwy ymweld â

[Bridgend.volunteering-wales.net](https://bridgend.volunteering-wales.net)

Ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr, bydd y system hon yn eich helpu i recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr, logio oriau gwirfoddoli, cynllunio rotâu a digwyddiadau, cofnodi hyfforddiant a phrofiad a chynhyrchu adroddiadau.

Cylchlythyr GAEAF 2021

Hyfforddiant BAVO 2021

O fis Ebrill i fis Gorffennaf byddwn yn cynnig nifer o weithdai ar-lein byr rhad ac am ddim a gynlluniwyd i'ch helpu i redeg eich sefydliad yn fwy effeithiol, effeithlon a diogel. Yn ogystal â diogelu byddwn yn ymdrin â nifer o bynciau eraill, yn amodol ar alw, gan gynnwys:

- Cadeirio cyfarfodydd yn effeithiol;
- Gwaith tîm a dirprwyo;
- Cynllunio strategol/cynllunio gweithredol;
- Cynllunio ariannol;
- Codi arian – yn cwmpasu cynhyrchu incwm;
- Cyllid a chyfrifyddu;
- Marchnata a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol;
- Rheoli gwirfoddolwyr.

Os nad yw'r hyn sydd ei angen arnoch ar y rhestr uchod, rhowch wybod i ni, efallai y byddwn yn dal i allu helpu!



Ymunwch â'n cronfa brys o wirfoddolwyr!

Yn ystod pandemig Covid-19, mae BAVO yn cynnal cronfa o wirfoddolwyr cymunedol brys y gellir eu rhoi mewn cysylltiad â phobl sy'n cael trafferth.

Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu galw i helpu gydag ystod o gymorth gan gynnwys siopa, fferylliaeth, gyrru gwirfoddolwyr ac unrhyw beth arall a allai godi o fewn rheswm.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â Sharon yn BAVO, Ff: 01656 810400 neu e-bostio: volunteering@bavo.org.uk

Sustainable Wales yn cynnig hyfforddiant ar-lein rhad ac am ddim i aelodau BAVO!

Mae Sustainable Wales yn cynnig gweithdai grŵp rhad ac am ddim a fydd yn helpu i uwchraddio polisïau datblygu amgylcheddol/cynaliadwy eich sefydliad ac arferion dyddiol gweithredol.

Bydd hyn yn unol â 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' y Senedd. Gyda chefnogaeth Renew Wales, bydd trafodaethau'n cael eu teilwra i amgylchiadau penodol eich grŵp, gweithgareddau prosiect, galluoedd ac amserlen.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Margaret Minhinnick drwy e-bostio: mm@sustainablewales.org.uk



Cylchlythyr GAEAF 2021

Adferiad Recovery: Cyfnod newydd o ran darparu gwasanaethau adfer ledled Cymru!



Bydd elusennau sefydledig CAIS, Hafal a WCADA yn uno'n swyddogol ag Adferiad Recovery ar 1 Ebrill 2021.

Maen nhw'n hyderus na fydd eu cynllun uno yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u lleoli ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Gallwch barhau i gysylltu â Hafal a WCADA a chael mynediad i'w gwasanaethau fel arfer:

Mae gwasanaethau Hafal ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys:

- Gwasanaeth atgyfeirio;
- Seibiannau i ofalwyr (Seibiant);
- Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd ac Eiriolaeth;
- Gwasanaeth Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr.

Cysylltwch â Theresa Griffiths, Rheolwr Gwasanaeth (Pen-y-bont ar Ogwr),
Ff: 07970 436385 neu E: theresa.griffiths@hafal.org

Mae gwasanaethau WCADA ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys:

- Cyfnewid nodwyddau;
- Cymorth dros y ffôn ac ar-lein;
- Cymorth allgymorth;
- Cymorth wyneb yn wyneb.

Cysylltwch â'r tîm yn Celtic Court ar
Ff: 01656 667717 neu E: adminbridgend@wcada.org



Brechlyn COVID-19



Bydd y bobl sy'n wynebu'r perygl mwyaf o COVID-19 yn cael eu blaenoriaethu yn gyntaf. Os ydych yn gymwys i gael y brechlyn, arhoswch i rywun gysylltu â chi.

Y rhestr flaenoriaeth ar gyfer cael brechlyn Coronafeirws yw:

- 1 preswylwyr a gweithwyr mewn cartref gofal ar gyfer oedolion hŷn
- 2 pawb 80 oed a throsodd a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen
- 3 pawb 75 oed a throsodd
- 4 pawb 70 oed a throsodd ac unigolion sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol
- 5 pawb 65 oed a throsodd
- 6 pob unigolyn 16 oed i 64 oed sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol sy'n eu rhoi mewn mwy o berygl
- 7 pawb 60 oed a throsodd
- 8 pawb 55 oed a throsodd
- 9 pawb 50 oed a throsodd



Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Ewch i:
icc.gig.cymru/brechlyn-covid-19



Cylchlythyr GAEAF 2021

Sefydliadau Pen-y-bont ar Ogwr yn dyfarnu dros £79,000 o gyllid Grant Adfer Covid-19 Iechyd Meddwl

Roedd 2020 yn gyfnod heriol i bawb, gyda phandemig Covid-19 yn effeithio ar iechyd meddwl y boblogaeth, gan achosi cynnydd nodedig yn y galw ar wasanaethau iechyd meddwl.

Fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i Covid-19, dyrannwyd £200,000 i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i gomisiynu cymorth newydd neu ymestyn y cymorth presennol a roddwyd gan ddarparwyr y sector gwirfoddol yn eu hardal i gefnogi anghenion iechyd meddwl newidiol a achoswyd gan y pandemig. Cysylltwyd â BAVO, Interlink RhCT a Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful i gefnogi gyda'r broses.

Derbyniwyd nifer llethol o geisiadau o bob rhan o'r rhanbarth ac roedd y panel grant yn ei chael yn anodd iawn dewis rhwng cynifer o brosiectau gwerthfawr ac amrywiol. Yn y pen draw, dyfarnwyd dros £79,000 i sefydliadau yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn unig, a fydd yn darparu gwasanaethau fel cymorth anhwylderau bwyta, lles emosiynol mewn plant a phobl ifanc ac adferiad iechyd meddwl drwy fynediad i'r awyr agored a'r celfyddydau.

Bydd y rhai llwyddiannus sy'n derbyn grantiau yn gweithio'n annibynnol ac fel rhan o is-grŵp Adfer Covid-19 sydd newydd ei ffurfio o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Bydd yr is-grŵp yn rhoi adborth i Lywodraeth Cymru am yr heriau y mae darparwyr iechyd meddwl a lles y trydydd sector yn ein rhanbarth yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn ystod pandemig Covid-19.



Llinell Gymorth Llais a Dewis Pen-y-bont ar Ogwr: busnes fel arfer

Gyda'r ansicrwydd ar hyn o bryd gyda Covid-19, mae Hwb Llais a Dewis Pen-y-bont ar Ogwr am eich sicrhau eu bod yn rhedeg y busnes fel arfer ac yn dilyn holl gyngor y llywodraeth.

Nhw yw'r man galw cyntaf os oes angen help arnoch i gael eich clywed, deall gwasanaethau cymdeithasol, neu os ydych yn teimlo nad ydych yn cael y cymorth cywir i aros yn annibynnol.

Gall eu tîm o eiriolwyr cynghorwyr llinell gymorth weithio o bell ac maen nhw'n dal i fod ar gael i'ch cefnogi o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 10am a 3pm.

Gallant helpu unrhyw un dros 18 mlwydd oed, sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac sy'n gymwys i gael mynediad at wasanaethau cymdeithasol; neu os ydych yn weithiwr proffesiynol, yn ofalwr, neu'n rhywun arall sy'n pryderu am les rhywun.

Gellir cysylltu â'r llinell gymorth rhad ac am ddim hon ar 0808 8010 330 i gael gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n gysylltiedig ag eiriolaeth. Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy fynd i

www.llaisadewispenybontarogwr.cymru



Cylchlythyr GAEAF 2021

‘Cysylltu gofaluwyr’ ar draws Pen-y-bont ar Ogwr

Ydych chi'n gofalu am rywun yn eich teulu, ffrind neu gymydog? Hoffech chi gwrrd ag eraill yn eich cymuned i rannu eich profiadau a helpu i gefnogi eich gilydd?

Mae ‘Cysylltu Gofaluwyr’ yn brosiect sy'n cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chanolfan Cydweithredol Cymru, sy'n anelu at ddefnyddio

cydweithredu a chydweithio i roi cyfrifoldeb i ofalwyr am wella cyfleoedd i wella lles.

Gall ‘Cysylltu Gofaluwyr’ eich helpu i wneud y canlynol:

- cwrdd â phobl newydd sydd hefyd â chyfrifoldebau gofalu;
- trefnu gweithgareddau cymdeithasol hwyliog;
- defnyddio technoleg i gyfarfod, sgwrsio ac aros mewn cysylltiad;
- sefydlu eich grŵp bach eich hun i'ch helpu i ofalu amdanoch chi eich hun a'ch gilydd.

I gael gwybod mwy, ffoniwch Paula yng Nghanolfan Cydweithredol Cymru ar 07776 961253 neu e-bostiwch: paula.lunnon@wales.coop



Canolfan Gofaluwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn ennill achrediad uwch Cyfeillgar i Ofalwyr

Cenhadaeth Canolfan Gofaluwyr Pen-y-bont ar Ogwr yw ‘ gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau gofaluwyr ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr drwy ddarparu gwybodaeth a chymorth a lleihau unigedd.

Dyweddodd Helen Pitt, Rheolwr y Ganolfan: “Fel sefydliad â'r diben o gefnogi gofaluwyr a theluoedd di-dâl, roeddem yn falch iawn o gael cydnabyddiaeth gyhoeddus o'r gwasanaeth rhagorol y mae Canolfan Gofaluwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn ei ddarparu i ofalwyr o bob oed.

“Mae'n bwysig nawr, yn fwy nag erioed, ein bod yn byw mewn cymdeithas sy'n gweithio i fod yn ‘gyfeillgar i ofalwyr’ ac i roi'r gydnabyddiaeth haeddiannol i ofalwyr. Mae gofaluwyr yn gofalu am deulu a ffrindiau oherwydd salwch ac anabled, gall eu rôl fod yn straen mawr ac yn anodd iawn ac yn aml yn golygu jyglo gwaith ac addysg gyda gofalu am rywun annwyl.

“Mae'n bwysig felly bod pob sefydliad yn deall effaith rôl gofalu boed hynny fel cyflogwr, coleg, ysgol, ysbyty neu feddygfa ac yn cynnig cymorth neu atgyfeirio atynt. Bydd un person o bob pedwar yn dod yn ofalwr ar ryw adeg - mae gofaluwyr yn fusnes i bawb.”

I gael rhagor o fanylion am Ganolfan Gofaluwyr Pen-y-bont ar Ogwr a sut i gysylltu â nhw, ewch i www.bridgendcarers.co.uk



Llinell gymorth ranbarthol yn cefnogi'r rhai sydd yn hunan-ynysu

Mae llinell gymorth ranbarthol gyntaf Cymru i gefnogi pobl ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n hunan-ynysu wedi'i lansio yng Nghwm Taf Morgannwg (CTM). Mae'r gwasanaeth saith diwrnod yr wythnos newydd wedi'i sefydlu mewn partneriaeth gan awdurdodau lleol CTM, Cynghorau Gwirfoddol Sirol, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol CTM, Bwrdd Iechyd Prifysgol CTM ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gall pobl sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf neu Ben-y-bont ar Ogwr ffonio'r llinell gymorth gyda'u pryderon a'u pryderon os gofynnir iddynt hunan-ynysu gan wasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu GIG Cymru.

Bydd rhif cyswllt ar gyfer y ' llinell gymorth Hunan-ynysu CTM ' yn cael ei anfon drwy neges destun, llythyr, neu'n cael ei roi dros y ffôn i unrhyw un sy'n cael ei olrhain neu sy'n profi'n bositif am Covid-19. Pan fydd pobl yn ffonio'r rhif ffôn, bydd aelod o dîm cyfeillgar y llinell gymorth yn siarad â nhw i gael gwybod pa gymorth sydd ei angen arnynt.

Gallai hyn gynnwys cyngor ynghylch y canllawiau Covid-19 diweddaraf; dolenni i wybodaeth berthnasol neu gyfeirio at Gyngor Bwrdeistref

Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a fydd yn ceisio cymorth lleol ar eu cyfer.

Meddai prif weithredwr BAVO Heidi Bennett: "Yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf a'r cyfnod atal byr, roedd gan Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr system gymorth wych ar waith ar gyfer pobl mewn angen. Fe wnaeth BAVO a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ail-leoli staff a gweithio mewn partneriaeth â grwpiau a gwirfoddolwyr cymunedol a gwirfoddol lleol i sicrhau bod trigolion lleol yn cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt cyn gynted a di-dor â phosibl.

"Rydym yn parhau i gefnogi'r dull hwn ac yn annog unrhyw un sydd angen help i gysylltu â'n Tîm Llywio cymunedol yn BAVO, Ff: 01656 810400 neu e-bost: bavo@bavo.org.uk"

'Gwneud i Berthnasoedd Gyfrif'

Mae Age Cymru wedi lansio ei ganllaw defnyddiol newydd i deuluoedd, gofaluwy di-dâl, a staff gofal sy'n cefnogi person sy'n symud i fyw mewn cartref gofal.

Gallwch **lawrlwytho copi yma** ti roi cyhoeddusrwydd drwy eich rhwydweithiau.

Cylchlythyr GAEAF 2021

Llywyr Cymunedol yn darparu cymorth ac atgyfeirio hanfodol i bobl sy'n agored i niwed

Mae ein Llywyr Cymunedol yn annog unigolion i gyrchu gweithgareddau, gwybodaeth a chynghor yn y gymuned sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau i atal eu hamgylchiadau rhag dirywio i bwynt lle y gallai fod angen cymorth iechyd neu ofal cymdeithasol lefel uwch arnynt.

Drwy gydol pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau symud, mae rôl ein Llywyr wedi newid i ddiwallu anghenion y gymuned, gan ddarparu cymorth unigol ac atgyfeirio hanfodol i bobl sy'n agored i niwed.

“Rwyf wedi bod yn ymdopi'n llawer gwell – dydw i ddim yn crio drwy'r amser...”

Fe wnaeth ein Llywiwr Cymunedol gyfarfod â SB sy'n byw yn y Pîl gyda'i chŵn. Mae'n dioddef o iselder difrifol, gorbryder a phroblemau personoliaeth. Mae ganddi hefyd sbondylitis serficol sy'n achosi poen difrifol ac sy'n effeithio ar ei symudedd.

“Roeddwn i'n dioddef gyda fy iechyd meddwl a'm arian pan gysylltais â BAVO am y tro cyntaf a siarad â Gail. Roedd newid diweddar yn fy meddyginiaeth wedi fy ngadael â hwyliau isel iawn ac roeddwn i'n cael trafferth o ddydd i ddydd. Roeddwn i'n ei chael hi'n anodd iawn gadael y tŷ.

“Roedd y parseli banc bwyd yr oedd Gail yn gallu cael mynediad iddynt a'u darparu yn fendith. Roedd yn hyfryd gweld rhywun ar garreg y drws a gwybod bod rhywun i'w ffonio pe byddai gennyf broblem na allwn ddelio â hi.

“Rwy'n defnyddio fy nghyfrifiadur i siopa ar-lein ac aros mewn cysylltiad â'm merch fedydd yn fawr a thros yr haf rhoddodd y gorau i weithio, ac fe wnaeth hynny fy rhoi mewn tipyn o banig os ydw i'n onest. Daeth Gail o hyd i siop i'w drwsio

i mi a allai gasglu a dychwelyd y cyfrifiadur wedi'i drwsio. Gwnaed y gwaith atgyweirio ymhen ychydig ddyddiau, a oedd yn wych ac yn golygu nad oeddwn allan o gysylltiad yn hir iawn ac na fyddai'n rhaid i mi ofyn am unrhyw gymorth ychwanegol gyda phethau.

“Mae Gail wedi cadw mewn cysylltiad â mi dros y ffôn – gan wirio sut ydw i bob hyn a hyn. Mae'n braf cael rhywun ar ben arall y ffôn, hyd yn oed os nad ydw i'n ei ateb, mae'n dda clywed neges gan rywun.

“Mae fy sbondylitis yn effeithio ar fy nwylo a'm coesau ac rwy'n dechrau ei chael hi'n anodd mynd i fyny ac i lawr y grisiau ac mae gwaith o amgylch y tŷ yn mynd yn anodd iawn. Roedd yn rhyddhad pan awgrymodd Gail ei bod yn cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol i weld a allent helpu drwy wneud newidiadau i'm tŷ. Cysylltodd y Gwasanaethau Cymdeithasol yr un bore ac rwyf bellach mewn cysylltiad â Gofal a Thrwsio ac yn aros i rywfaint o waith gael ei wneud.

“Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, rwyf wedi bod yn ymdopi'n llawer gwell – dydw i ddim yn crio drwy'r amser, mae fy mudd-daliadau wedi'u sortio ac rwy'n cyllidebu ar gyfer y Dreth Ystafell Wely a biliau.

Gallwch gysylltu â'n Llywyr Cymunedol yn BAVO
drwy ffonio 01656 810400 neu e-bostio: bavo@bavo.org.uk

Cylchlythyr GAEAF 2021

Creu Cymunedau Gwydn a Chysylltiedig

Mae ein Swyddog Gwydnwch Cymunedol yn gweithio gydag aelodau'r gymuned i ddatblygu mentrau newydd maen nhw'n teimlo fyddai'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w hardal leol. Yn ddiweddar rydym wedi bod yn gweithio gyda Chatter Box Hen Shed Ogmoredale.

Dyweddodd Cheryl Dowd, sy'n un o sylfaenwyr Hen Shed ochr yn ochr â Kath Davies: "Sefydlwyd Hen Shed yn ystod blwyddyn anodd i bawb. Roeddem yn teimlo ei bod hi'n bwysig bod merched yn ein cymuned yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod ganddynt rywun i droi atynt am sgwrs; man lle roedden nhw'n teimlo'n ddiogel i fod yn nhw eu hunain a gwneud ffrindiau newydd.

"Mae Swyddog Datblygu Cymunedau Gwydn BAVO wedi bod yn rhan o'r gwaith o'r dechrau; yn cynnig cymorth ac arweiniad. Un o'r prif heriau i ni oedd cael aelodau. Roedd pobl yn ynysu gartref ac yn ofni neu'n methu mynd allan oherwydd y pandemig. Helpodd BAVO fi i farchnata'r grŵp a lledaenu'r gair a'n cysylltu â grwpiau presennol gyda meddylfryd tebyg.

"Yn ystod yr amser pan oeddem yn gallu cyfarfod fel grŵp, helpodd BAVO ni i wneud hynny'n ddiogel a rhoi gwybod i ni am y camau perthnasol oedd eu hangen i agor, gan sicrhau ein bod yn deall y rheolau ar gyfer canolfannau cymunedol ac unrhyw ymholiadau a oedd gennym, byddem yn eu ffonio. Roedd yn wych gallu cwrdd wyneb yn wyneb a helpu i godi ysbryd pawb!

"Roedd y Swyddogion Datblygu yn BAVO hefyd yn ein cefnogi gyda'r camau perthnasol i ddod yn grŵp swyddogol a'n helpu i ddatblygu cyfansoddiad. Fe wnaethant hefyd ein helpu i gael grantiau, rhoi gwybod i ni am unrhyw gronfa o arian yr oeddem yn gymwys i'w gael a'n cefnogi i gwblhau ceisiadau am grant lle bo angen.

"Mae BAVO wedi bod mor gefnogol a bob amser ar ben arall y ffôn am gyngor ac arweiniad. Hebddynt ni fyddai'r grŵp wedi bod yn llwyddiant. Rydym yn gobeithio y byddw yn gallu cyfarfod unwaith eto fel grŵp a chroesawu aelodau newydd yn 2021."

Gwneud gwahaniaeth i'ch cymuned! Os oes gennych unrhyw syniadau a fyddai'n gwella lle rydych chi'n byw ac angen cymorth i'w roi ar waith, cysylltwch â BAVO. Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy ymweld â

www.bavo.org.uk/get-help/help-for-individuals/community-resilience



Cylchlythyr GAEAF 2021

Cymdeithion Cymunedol yn dechrau prosiect ffrindiau drwy'r post newydd

Yn ddiweddar, cawsom lythyr yn y post gan ddynes yn ei 90au yn diolch i ni am y gefnogaeth a gafodd gan ein Cymdeithion Cymunedol yn ystod pandemig Covid-19. Fe wnaeth hyn ein cyffwrdd a'n gwneud yn ymwybodol o ba mor bwysig oedd hi i'r wraig honno ysgrifennu'r llythyr hwnnw a sut y gwnaeth ein diwrnod yn ei dderbyn!

Mae gennym ddiddordeb bob amser mewn gwella ac ehangu ein gwasanaeth cyfeillio, felly fe wnaeth hyn ein galluogi i feddwl pa mor braf fyddai hi i bobl dderbyn ac ysgrifennu llythyrau yn ystod y cyfnod anodd hwn, fel ffordd arall o gadw mewn cysylltiad â'r byd y tu allan.

Felly, treialodd Cymdeithion Cymunedol brosiect ffrind drwy'r post am dri mis. Syniad y prosiect yw bod gwirfoddolwyr yn cael eu cysylltu â phobl h'n yn y gymuned sydd o bosibl yn gwarchod eu hunain ac a hoffai dderbyn llythyr boed hynny drwy'r post neu e-bost gan un o'n ffrindiau.

Cawsom ymateb gwyb a daeth 27 o wirfoddolwyr ymlaen eisiau cynnig eu cefnogaeth.

"Mae'r prosiect wedi mynd yn dda iawn gyda fy ffrind post. Mae hi wedi ateb cryn dipyn o weithiau i'm llythyrau er ei bod yn ei chael hi'n anodd ysgrifennu. Cawsom Gerdyn Nadolig hyfryd a llythyr gan ei merch yn Lloegr yn diolch i ni am gadw mewn cysylltiad â'i mam. Rwy'n gobeithio y bydd ein gohebiaeth yn parhau yn y Flwyddyn Newydd."

Dyweddodd y bobl a oedd yn rhan o'r prosiect ffrind drwy'r post ei fod wedi helpu i wella eu lles a'u bod yn teimlo'n llai unig ac ynysig gan ei fod wedi cynyddu eu cyfleoedd i gymdeithasu ag eraill mewn cyfnod anodd.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan neu eisiau darganfod mwy, cysylltwch â Tracy yn BAVO, Ff: 01656 810400 neu e-bostiwch: tracybeall@bavo.org.uk



"Mae'r prosiect wedi mynd yn dda iawn gyda fy ffrind post. Mae hi wedi ateb cryn dipyn o weithiau i'm llythyrau."





BAVO yn ennill gwobr ansawdd o fri

Rydym wedi llwyddo i adnewyddu ein Marc Ansawdd Elusennau Dibynadwy i gydnabod ein gwaith rhagorol fel Cyngor Gwirfoddol Sirol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr!

Ein nod yw darparu cefnogaeth, arweiniad, cymorth ymarferol a gwybodaeth i grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol i ddatblygu sgiliau, gwasanaethau a gweithgareddau, gan sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli ar draws ystod eang o faterion yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Meddai prif weithredwr BAVO Heidi Bennett: “Mae’n gynyddol bwysig i fudiadau gwirfoddol yng Nghymru ddangos eu perfformiad, eu heffeithiolrwydd a’u heffaith i gyllidwyr, comisiynwyr a defnyddwyr.

“Aseswyd BAVO yn erbyn yr 11 safon o arfer effeithiol mewn Elusen Gymeradwy, gan gynnwys llywodraethu, arwain a rheoli, rheoli staff a gwirfoddolwyr a rheoli arian. Mae ein staff bob amser yn gweithio’n galed iawn i sicrhau eu bod yn darparu’r safonau gwasanaeth uchaf i’n haelodau a’r sector gwirfoddol ehangach, gan gyflawni’r marc ansawdd am yr eildro.”

Mae’r dyfarniad mawreddog hwn yn rhan o Gyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol a dyma’r unig safon ansawdd yn y DU sydd wedi’i chynllunio i helpu mudiadau gwirfoddol i weithredu’n fwy effeithiol ac effeithlon.

Dywedodd Nick Snow, Rheolwr Rhaglen Elusen Gymeradwy o NCVO: “Rydym wrth ein boddau i ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr BAVO eu bod wedi cyflawni’r Marc Elusen Gymeradwy.

“Rydym yn gwybod bod sefydliadau sy’n defnyddio’r safon Elusen Gymeradwy yn elwa drwy gael gwell llywodraethu, gwell systemau a gweithdrefnau a gwell gwasanaethau o ansawdd da i’w defnyddwyr ac mae’n wych bod cymuned defnyddwyr Elusennau Cymeradwy yng Nghymru yn tyfu.”





Cylchlythyr GAEAF 2021

BAVO yn helpu Hi Tide i ddosbarthu ciniawau Nadolig am ddim

Yn ystod yr wythnos yn arwain at y Nadolig, darparodd Hi Tide ym Mhorthcawl gannoedd o giniawau Nadolig am ddim i drigolion lleol bregus ac ynysig a ddosbarthwyd gan dîm o wirfoddolwyr wedi'i gydlynu gan BAVO a Grŵp Strategaeth Covid Porthcawl.


Dyweddodd Fran Dower: “Roedd Hi-Tide am wneud rhywbeth cadarnhaol, gan ein bod i gyd wedi cael cyfnod mor heriol ers mis Mawrth. Rydym yn ymwybodol iawn pa mor ynysig ac unig y gallai'r henoed a'r rhai sy'n agored i niwed fod yn teimlo ac roeddem am gyfleu rhywfaint o hwyl y Nadolig iddynt a 2021 gwell gobeithio.”

Ymunodd gwirfoddolwyr a staff BAVO â Grŵp Strategaeth Covid Porthcawl i ddarparu prydau bwyd i bobl ynysig sy'n byw ym Mhorthcawl, a oedd yn cynnwys buddiolwyr o'n Prosiect Cyfeillio Cymdeithion Cymunedol.

Dyweddodd Kerry Marlow o'r Grŵp Strategaeth:

“Hoffem ddiolch i Hi Tide a'r BAVO am ddarparu'r cyfle gwych hwn i godi ysbryd ein trigolion ym Mhorthcawl oedd yn gwarchod eu hunain, The Print Centre am y cardiau Nadolig a'n B&M a'n Co-op lleol am roi craceri Nadolig am ddim i ni i gyd-fynd â phob pryd bwyd ac yn olaf ond nid leiaf i'n holl wirfoddolwyr sydd wedi rhoi o'u hamser gwerthfawr i helpu i ledaenu rhywfaint o hwyl yr ŵyl i'n cymuned, yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd hwn.”

Meddai prif weithredwr BAVO Heidi Bennett: “Mae Hi-Tide wedi bod yn coginio gwledd yn rhoi prydau Nadolig i'r henoed, yn gaeth i'r tŷ ac yn ynysig. Pa mor FFANTASTIG ydyn nhw! Busnesau lleol fel Hi Tide sydd wir yn camu i mewn i helpu ein cymunedau mewn cyfnod o angen ac rydym mor ddiolchgar a balch o'r ysbryd cymunedol sydd allan yno yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr!



Credyd llun: Stel Anthony (gan gynnwys llun tudalen flaen)

Ward Plant Tywysoges Cymru diolch!

Cawsom ein llethu gan haelioni ein cymuned leol, a atebodd ein galwad i helpu i greu Gŵyl y Gaeaf hudolus i'r cleifion a arhosodd yn yr ysbyty yn anffodus dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Mewn ymateb i apêl BAVO, fe wnaeth llawer o bobl brynu neu roi addurniadau Nadolig a'u danfon i'r ward. Roedd rhoddion cwmnïau lleol yn cynnwys addurniadau ffenestri gan Crafty G's a defnyddiwyd arian a dderbyniwyd o godi arian cyhoeddus i brynu goleuadau Nadolig, addurniadau a phlanhigion sarn.

Dyweddodd Sian Townsend, Matron Gwasanaethau i Blant ac Uned Bae Gofal Arbennig: “Mae'r Ward Plant bob amser yn ymfalchïo mewn ceisio gwneud y profiad yn yr ysbyty dros gyfnod y Nadolig mor bleserus â phosibl mewn amgylchiadau annisgwyl. Yn anffodus, eleni nid oeddem yn gallu addurno'r ward mor Nadoligaidd ag yr hoffem oherwydd rheoli atal heintiau yn ystod Covid 19.

“Rydym yn hynod ddiolchgar am gefnogaeth BAVO i gydlynu rhoddion caredig, gan ganiatáu i ni greu gŵyl y gaeaf yn yr ardal chwarae awyr agored. Gallai wardiau cyfagos weld yr addurniadau yn ogystal â Ward Plant. Ymwelodd cydweithwyr sy'n oedolion hefyd â gŵyl y gaeaf a'i fwynhau wrth gymryd seibiant haeddiannol o amgylchedd eu ward. Diolch yn fawr o waelod ein calon.”



INVOLVE



Cylchlythyr GAEAF 2021

BAVO

Bridgend Association of Voluntary Organisations
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr

Ddim yn aelod o BAVO eto?!

Ydych chi'n grŵp neu'n elusen gymunedol, neu ydych chi am ddechrau un? Ydych chi'n chwilio am gyllid?

Oes angen mwy o wirfoddolwyr arnoch chi? Ydych chi am gyfarfod â grwpiau o'r un anian? A oes angen help arnoch chi i ddatrys problem?

Rydym yn darparu cymorth RHAD AC AM DDIM i'r holl grwpiau cymunedol a gwirfoddol, mentrau nid-er-elw a mentrau cymdeithasol sy'n aelodau yn ein hardal. Rydym hefyd yn darparu rhai gwasanaethau ymgynghori. Rydyn ni ochr arall y ffôn a gallwn helpu gyda unrhyw beth rydych chi ei angen.

Mae ein ffurflen aelodaeth BAVO a gwybodaeth bellach i'w gweld drwy ymweld â www.bavo.org.uk/get-involved/bavo-membership

Hoffai BAVO ddiolch i'r holl gyfranwyr i gylchlythyr y gaeaf. Os hoffech gynnwys erthygl yn ein rhifyn nesaf, Ff: 01656 810400 neu E: bavo@bavo.org.uk



Follow us on Twitter and Facebook for daily news and updates!

Rydym yn cadw'r hawl i olygu deunydd neu hepgor erthyglau lle bernir eu bod yn amhriodol neu os nad yw adnoddau'n caniatáu cynhwysiant. Ymddiheurwn os ydych chi wedi anfon erthygl nad yw wedi'i chynnwys yn y rhifyn hwn. Efallai na fydd y safbwyntiau a fynegir yn yr erthyglau yn y cylchlythyr hwn yn cynrychioli barn BAVO.

English version available here
Chwefror 2021 ©BAVO

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr
112 - 113 Commercial Street, Maesteg, CF34 9DL
Ff: 01656 810400 E: bavo@bavo.org.uk www.bavo.org.uk

Rhif cwmni: 07691764 Rhif Cofrestru Elusen: 1146543